# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 13eg Ionawr 2020

Presennol: Henry Hughes, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes,Terry Hughes, Richard Williams, Humphrey Williams, Seimon Glyn.
Ymddiheuriadau: John Davies

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. Mynwent Tudweiliog,Eisteddfod Genedlaethol 2021,Cyfarfod Cyhoeddus – Gan fod bwriad i gynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn Nhydweiliog ym mis Ionawr i drafod pryderon y pentrefwyr (dyfodol y fynwent, Eglwys ac unrhyw fater arall), penderfynnwyd plethu hyn gyda'r apel cronfa leol Eisteddfod Genedlaethol 2021. Bydd hyn yn digwydd yn y Lion nos Fercher 22ain Ionawr – gyda Sian Parri yn Cadeirio y noson

b.Arwyddion Porth Colmon – Deallodd y Clerc gan swyddogion y Cyngor Sir mai Mr Iwan Evans Pennaeth yr Uned Gyfreithiol fyddai'r person addas i gysylltu ynglyn a chael arweiniad. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod.

c.Bioamrywiaeth – Derbynniodd y Clerc templed o bolisi Beoamrywiaeth gan Un Llais Cymru, bydd y Clerc yn ei addasu i'r Cyngor Cymuned.

ch. Cefnamwlch – Gan na fedrodd y Clerc ddarganfon pwy oedd asiant y Stad, cafodd ar ddeall gan y Cynghorwyr mai Carter Jonas ydynt, bydd y Clerc yn cysylltu a nhw

4. **Gohebiaethau:**

a. Garddwest Plas Buckingham – Doedd neb hefo diddordeb mynychu.

b. Cais Cynllunio C19/1127/46/DT Tan y Bwlch Garnfadryn.
Gan mai cais cynllunio personnol Henry Huws oedd hwn, ac am fod Seimon Glyn yn frawd ynghyfraith iddo, arwyddodd y ddau ffurflen datgan diddordeb, a bu'r ddau fynd allan o'r ystafell.
Trafodwyd y cais a pasiwyd iw GEFNOGI

c. Cais Cynllunio C19/1172/46/LL Hirdre Fawr Tudweiliog – trafodwyd y cais a pasiwyd i'w GEFNOGI

ch.Cais Cynllunio C19/1176/46/LL Muriau Tudweiliog – trafodwyd y cais a pasiwyd i'w GEFNOGI

5. **Unrhyw fater arall**

a.Cau Post Tudweiliog – Adroddodd Gareth Jones fod pryder yn y pentref oherwydd cafwyd ar ddeall y bydd y Post a Siop y pentref yn cau. Gan y bydd cyfarfod cyhoeddus nos Fercher 22ain, penderfynnwyd ei drafod yno.

b.Cafwyd ar ddeall fod twll yn y ffordd ger Gwyndy Tudweiliog, bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.

CYNHELIR y CTFARFOD NESAF AR 10ed Chwefror 2020
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh